Sefydliad Materion Cymreig
Institute of Welsh Affairs

Cylchlythyr yr IWA Hydref 2007

Croeso i rifyn diweddaraf o'r Cylchlythyr i Aelodau'r IWA. Ar ôl un etholiad eisoes yng Nghymru eleni, mae rhyddhad fwy na thebyg ymhlith y cyhoedd yn ogystal â gwleidyddion na fydd un arall, o bosibl tan 2009, i ethol ein cynrychiolwyr yn San Steffan. Bydd ein sylw ni yma yng Nghymru yn sicr o ganolbwyntio ar ein llywodraeth glymblaid newydd yn y Cynulliad, a bydd yr heriau cyntaf gwirioneddol yn debygol o amlygu eu hunain yn ystod y misoedd nesaf ym meysydd iechyd, yr economi ac addysg. Yma yn yr IWA byddwn ni'n cyfrannu tuag at y dadleuon yng Nghymru ar y materion hyn a materion pwysig eraill ac mae gennym ni raglen o ddigwyddiadau a fydd yn cyffwrdd â'r rhan fwyaf o faterion.

Digwyddiadau

Bydd yr IWA yn cynnal digwyddiadau yng Nghaerdydd, Caernarfon ac Abertawe dros y misoedd nesaf wrth i'n rhaglen yr hydref ni ddechrau. Fel y gwelwch, mae pwyslais addysgol a diwylliannol cryf i'r rhaglen eleni. Mewn cynhadledd a gynhelir ddydd Iau Hydref 18 ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng Nghanolfan Gynadledda Prifysgol Caerdydd byddwn ni'n archwilio'r materion sydd ynghlwm â *Chreu Cymru Ddwyieithog: Rôl y Gymraeg mewn Addysg.* Bydd y gynhadledd, sydd eisoes wedi denu cryn ddiddordeb gan ysgolion ac ymhlith addysgwyr eraill, yn edrych ar arfer da mewn trochi iaith Gymraeg, y modelau sy'n debygol o arwain at enillion ieithyddol, addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chodi safonau mewn addysgu Cymraeg.

Dydd Mawrth 30 Hydref bydd cangen Gogledd Cymru'n cynnal ei chinio blynyddol yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd, Caernarfon, lle bydd yr Athro Laura McAllister o Brifysgol Lerpwl ac aelod o Gomisiwn Richard, yn edrych yn ôl ar *Ddegawd Datganoli,* y deng mlynedd ers cynnal y refferendwm a arweiniodd at sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol. Y cyfarwyddwr theatr o Gymru, Michael Bogdanov, fydd gwestai *In Conversation* Peter Stead mewn cinio ddydd Mercher Hydref 31 yng Nghanolfan Dylan Thomas, Abertawe, dinas y mae gan Bogdanov gysylltiadau teuluol cryf â hi: bydd yn siarad am ddyfodol y theatr Saesneg yng Nghymru. Dydd Mercher 7 Tachwedd byddwn ni'n cynnal cynhadledd hanner diwrnod yn yr Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd, ar *Gau Ysgolion Bach yng Nghymru,* a fydd yn cyflwyno canfyddiadau annisgwyl a dadleuol. Mae'r IWA hefyd yn cefnogi ac yn cyfrannu i gynhadledd a gynhelir ddydd Iau 8 Tachwedd gan Epsilon a Grayling ar *Bwerau Deddfwriaethol Newydd yng Nghymru: y Cyfleoedd a'r Bygythiadau*. Ym mis Rhagfyr byddwn ni'n cynnal digwyddiad ar y cyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ynghylch *Byw gyda'n Tirwedd.* Am fanylion ynghylch unrhyw un o'r digwyddiadau hyn neu i archebu lle ynddyn nhw ffoniwch 029 2066 6606, e-bostiwch **wales@iwa.org.uk** neu ewch i'n gwefan www.iwa.org.uk

Cyhoeddiadau

Yr etholiad a'r trafodaethau dilynol a gafwyd ddechrau'r haf ymysg y pedair plaid wleidyddol ynghylch ffurfio clymblaid yw sail cyhoeddiad diweddaraf yr IWA, *Crossing the Rubicon,* gan John Osmond, cyfarwyddwr yr IWA. Mae'n adrodd stori hynod o ddiddorol, ac yn ffrwyth sgyrsiau hir gyda rhai o'r prif gyfranogwyr. Hwn fydd y cyfrif diffiniadwy o foment allweddol yn hanes Cymru ac mae eisoes wedi gwerthu'n dda ers ei gyhoeddi. Ym mis Tachwedd byddwn ni'n cyhoeddi cyfrol bwysig arall a fydd yn cynnwys cyfraniadau a gafwyd gan ystod eang o arbenigwyr amlwg ym maes iechyd yng Nghymru yn ystod cynhadledd gyntaf Academi Iechyd Cymru, sefydliad a gefnogir gan yr IWA. Yn dwyn y teitl *The Welsh Health Battleground: Policy Approaches for the Third Term,* mae'r llyfr yn cynnwys penodau ar y loteri cod post a'r modd mae'n effeithio Cymru, integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, yr heriau o ran gofal sylfaenol a gofal cymunedol, a'r ddadl ynghylch ail-gyflunio. Am fanylion ynghylch sut i gael copi o *Crossing the Rubicon* neu unrhyw gyhoeddiad arall gan yr IWA, ffoniwch 029 2066 6606 neu e-bostiwch **wales@iwa.org.uk**

Cyhoeddiadau Gwaith Ymchwil

Ar 7 Tachwedd byddwn ni'n lansio adroddiad gwaith ymchwil pwysig *Small School Closures in Wales - New Evidence.* Ariannwyd y prosiect gan Sefydliad Esmée Fairbairn ac Ymddiriedolaeth Cook, ac mae'n ganlyniad gwaith a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r rhan fwyaf o siroedd Cymru'n wynebu problemau difrifol o ran niferoedd llai o ddisgyblion ac ysgolion bach anghynaliadwy. Mae llawer o sireodd wedi dechrau ar y gwaith o ad-drefnu eu cyflenwad o leoedd ysgolion. Yn y naw sir wledig yng Nghymru 90 neu lai o ddisgyblion sydd gan 53 y cant (394 mewn nifer) o'r ysgolion cynradd a chânt eu categoreiddio gan y Comisiwn Archwilio yn ysgolion 'bach' ac fel rhai a all fod yn anghynaliadwy. Mae hon felly yn broblem fawr yng Nghymru.

Mae'r astudiaeth newydd hon gan yr IWA yn adrodd am y profiad o gau, uno ac ad-drefnu chwech o ysgolion cynradd mewn dwy sir wledig gyferbyniol yng Nghymru, sef Sir Benfro a Phowys. Mae cyfweliadau gyda disgyblion, athrawon a rhieni, ynghyd â data ar lefel cyrhaeddiad cyn ac ar ôl cau'r ysgolion yn cynnig tystiolaeth sy'n torri tir newydd ynghylch effaith cau ysgolion.

I lawer bydd canfyddiadau'r astudiaeth yn mynd yn erbyn eu greddfau ac yn ddadleuol. Mae'r astudiaeth yn gofyn y cwestiynau canlynol:

- Beth yw effeithiau uno, ad-drefnu a chau ysgolion bach, yn ôl profiad penaethiaid, rhieni, plant, llywodraethwyr a chymunedau'r ysgolion hynny?

- Beth yw effaith ad-drefnu a chau ysgolion bach ar 'ddeilliannau' y broses addysgol o ran lefelau datblygiad y plant a effeithiwyd?

- Os yw cau ysgolion bach yn angenrheidiol sut ddylid rheoli hyn er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau?

Cangen Caerdydd
Mae gan yr IWA ganghennau ym Mae Abertawe, Gwent, Gogledd Cymru, a Gorllewin Cymru ond dim cangen ar gyfer Caerdydd a'r cyffiniau. Eto, fel y gwnaiff aelodau sy'n byw yn yr ardal hon dystio, mae materion, fel datblygiad parhaus y ddinas fel metropolis Cymru, ei pherthynas â'i chefnwlad yn y Cymoedd, a'i bywyd cymdeithasol a diwylliannol, yn haeddu'r sylw arbennig y gallai cangen Caerdydd roi iddynt. Rydym ni'n ystyried, felly, sefydlu cangen, a byddem ni'n ddiolchgar i dderbyn barn aelodau ac unrhyw rai eraill sydd â diddordeb. Os byddwch chi'n fodlon eistedd ar bwyllgor bach i ystyried sut allai cangen Caerdydd weithredu, sut y gallai weithio gyda phencadlys yr IWA ym Mhlas yr Amgueddfa, a sut y gallai ryngweithio â'r canghennau eraill yng Nghymru, byddem ni'n falch iawn i glywed gennych chi. Yn benodol, byddem ni'n hoffi dod o hyd i unigolyn a allai wasanaethu fel cadeirydd anrhydeddus cyntaf y gangen. Os gallwch chi helpu ffoniwch 029 2066 6606 neu e-bostiwch **wales@iwa.org.uk**

Bwletin ABC
Daeth Adroddiad Monitro'r IWA, a oedd yn nodi'r datblygiadau yn y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod ei ddau dymor cyntaf, i ddiwedd ei gyfnod cyhoeddi fis Mai diwethaf, gan ein bod ni'n teimlo bod gwell ffyrdd bellach o wneud cyfraniad i roi cyhoeddusrwydd i waith ein sefydliadau gwleidyddol. Y canlyniad yw cyhoeddiad newydd, Assembly Bwletin Cynulliad – yr hoffem ni ei ystyried yn ABC Gwleidyddiaeth Cymru. Cyhoeddir ef ar y cyd â Grayling Wales, y cwmni o ymgynghorwyr materion cyhoeddus o Fae Caerdydd, a bydd yn cynnig crynodeb rheolaidd a darllenadwy 4-6 tudalen o hyd o'r hyn sy'n digwydd yn y Cynulliad a'r hyn sy'n debygol o fod yn digwydd yn y byd gwleidyddol yng Nghymru, ynghyd â sylwebaeth a dadansoddiad gan yr IWA a Grayling. Bydd y Bwletin yn ymddangos ar fformat PDF a chaiff ei e-bostio i'r rheiny a arferai dderbyn yr Adroddiad Monitro. Os hoffech chi gael eich cynnwys ar y rhestr bostio er mwyn ei dderbyn, anfonwch e-bost atom yn **wales@iwa.org.uk** o dan y pennawd 'Bwletin'.

Dŵr Cymru
Mae Glas Cymru, cwmni daliannol Dŵr Cymru, ac aelod gwmni o'r IWA yn bwriadu recriwtio pobl sydd â diddordeb bod yn aelodau o'r cwmni. Mae ei strwythur yn golygu nad oes ganddo gyfranddeiliaid ac fe'i gweithredir er budd ei gwsmeriaid yn unig. Ceir dros 50 o aelodau ar hyn o bryd ond mae rhai'n bwriadu rhoi'r gorau iddi'n fuan ac mae Dŵr Cymru'n edrych am 15 - 20 o aelodau newydd i'w penodi.

Swyddogaeth allweddol aelodau Glas Cymru yw sicrhau bod y busnes yn parhau i ganolbwyntio ar ei brif ddiben o ddarparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth o ansawdd i'r cymunedau a wasanaethir gan Dŵr Cymru. Wrth wneud hyn, mae aelodau yn ymgymryd â rôl bwysig o ran llywodraethu corfforaethol, ac am y rheswm hwn aelodaeth bersonol a gynigir ac ni phenodir aelodau fel cynrychiolwyr unrhyw grŵp penodol neu randdeiliaid â diddordeb.

Penodir aelodau i'r Bwrdd yn unol â Pholisi Aelodaeth cyhoeddedig Glas Cymru ac yn unol â chyngor panel penodi annibynnol. Mae croeso i aelodau'r IWA sy'n credu y gallent gyfrannu yn y modd hwn i ymgeisio drwy fynd i www.dwrcymru.co.uk